Panel Blas ac Arogl

Bydd Dŵr Cymru yn gofyn aelodau'r cyhoedd i brofi blas ac arogl ei ddŵr tap fel mesur arall i wirio ansawdd ei gyflenwadau preswyl.

Gwneir y gwaith yma, a phrofi samplau eraill, gan labordai annibynnol sy'n rhan o'r Severn Trent Services Group. Bydd labordai Severn Trent yn cynnal amrediad cynhwysfawr o brofion cemegol, bacteriolegol ac algaidd ar samplau dŵr tap yn unol â'r gofynion rheoleiddio, gyda'r canlyniadau'n destun archwiliad gan yr Arolygaeth Dŵr Yfed.

Bydd y panelau'n cynnwys trigolion lleol sy'n profi ac arogli samplau dwˆ r o gartrefi drwy Gymru a swyddi Caer a Henffordd a wasanaethir gan y Cwmni. Bydd pob panel yn cynnwys pobl leol fydd wedi ymateb i hysbysebion mewn siopau neu ganolfannau gwaith. Mae tîm o chwech yn gweithio allan o labordai Penybont yn gyfrifol am y de a phanel arall yn gweithio allan o labordai Runcorn yn profi samplau o gartrefi'r gogledd.

Rhaid i aelodau'r panelau atal rhag smygu a chytuno i beidio defnyddio persawr a deunydd cosmetig sawrus ar ddiwrnodau profi dŵr er mwyn cadw taflodau a thrwynau'n glir. Yn ogystal, maent yn gorfod cymryd profion blas ac arogl a derbyn hyfforddiant er mwyn cynnal effeithiolrwydd y panel. Byddwn yn eu talu fesul awr ond byddant yn gweithio mewn sesiynau byr yn unig er mwyn osgoi rhoi gormod o bwysau ar eu synhwyrau. Er enghraifft, byddant yn profi oddeutu 10 sampl mewn sesiwn.

Mae'r profion eu hunain yn debyg i brofion blasu gwin. Cynhesir y dŵr er mwyn cynnal yr arogl. Ar ôl cofnodi'r arogl bydd y panelwyr yn blasu'r dŵr, gan ei chwyrlio o gwmpas eu cegau cyn ei boeri allan. Cyflwynir nifer benodol o brofion ar y tro sy'n cynnwys samplau blanc heb unrhyw flas neu arogl.

Asesir cryfder blas neu arogl wrth ailadrodd y prawf gan ddefnyddio'r un sampl wedi'i wanedu. Os bydd sampl yn methu'r prawf, anfonir adroddiad at Dŵr Cymru er mwyn symbylu camau i adfer y sefyllfa. Bydd hynny'n ategu'r profion gwyddonol.